# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## EOC(3)-11-10 : Papur 2

### Y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Gydraddoldeb Sengl Llywodraeth Cynulliad Cymru

### CYNLLUN CYDRADDOLDEB SENGL - Papur Tystiolaeth Llywodraeth y Cynulliad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## Diben

Hysbysu'r Pwyllgor ynghylch cynnydd Cynllun Cydraddoldeb Sengl Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Cefndir

Mae cydraddoldeb yn fater trawsbynciol ac mae *Cymru'n Un* yn cynnwys gweledigaeth ar gyfer Cymru deg a chyfiawn, lle gall pob dinesydd benderfynu ar natur eu bywydau eu hunain a llywio'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Ein huchelgais yw Cymru lle mae pawb yn cyflawni ei lawn botensial a lle nad oes unrhyw un yn byw mewn tlodi, lle na wahaniaethir yn eu herbyn, a lle nad oes ofn na cham-drin.

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi Cynlluniau Cydraddoldeb o ran rhyw, hil ac anabledd.  Mae'r Cynlluniau wedi bod yn ffactorau ysgogi pwysig wrth i ni fynd ati i brif ffrydio cydraddoldeb i'r polisïau, y strategaethau a'r gwasanaethau a ddatblygir ac a weithredir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Penderfynodd Gweinidogion Cymru ymestyn yr agenda gydraddoldeb y tu hwnt i'r Cynlluniau unigol drwy ddatblygu a chyhoeddi Cynllun sengl ar gyfer rhyw, hil ac anabledd, ynghyd â chrefydd a chred neu ddiffyg cred, oedran, trawsrywedd a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Cynllun yn sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u hymgorffori yn ein polisïau a'n camau gweithredu. Drwy greu Cynllun Cydraddoldeb Sengl, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau lluosog.  Bydd y Cynllun yn ein helpu i ddangos sut rydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan y gyfraith gydraddoldeb bresennol.  Mae'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, a sut rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth.  Rydym am fynd gam ymhellach na bodloni ein

rhwymedigaethau cyfreithiol drwy hyrwyddo cyfle cyfartal a dileu achosion o wahaniaethu anghyfreithlon ar sail anabledd, rhyw a hil.

Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, rydym wedi canolbwyntio ar integreiddio egwyddorion cydraddoldeb, tegwch, parch ac urddas i waith Llywodraeth Cynulliad Cymru o ddydd i ddydd. Mae'r cynllun yn asesu effaith ein polisïau ar grwpiau gwahanol ym mhoblogaeth Cymru a'r camau a gymerir i fynd i'r afael â'r effaith honno.

## Datblygu'r Cynllun

Yn hytrach na chynnwys holl waith Llywodraeth Cynulliad Cymru, y bwriad i ddechrau oedd canolbwyntio ar nifer llai o flaenoriaethau gan ddefnyddio datganiadau lefel uchel a gefnogir gan gamau gweithredu manylach. Mae angen i ganlyniadau'r gweithgareddau hyn fod yn fesuradwy.

Ym mis Mawrth 2008, cyhoeddwyd fframwaith o egwyddorion a blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun a chynhaliwyd ymgynghoriad arno a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2008. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau o ymgysylltu â grwpiau er mwyn llywio datblygiad y Cynllun ymhellach, gan gynnwys gweithdai, digwyddiadau rhanddeiliaid a chynadleddau. Cynlluniwyd y digwyddiadau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd gwahanol ac mae'r hyn a ddysgwyd o ganlyniad i'r digwyddiadau wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y Cynulliad.

Wrth i'r cynllun ddatblygu, daeth yn amlwg bod rhanddeiliaid allanol am gael cyfle i fynegi eu barn ar y Cynllun a'r cynlluniau gweithredu gyda'i gilydd. Cyhoeddwyd y Cynllun a chynlluniau gweithredu'r adrannau ar 30 Hydref 2008 ar gyfer cynnal ymgynghoriad. Dosbarthwyd yr adborth i'r adrannau er mwyn mireinio'r cynlluniau gweithredu ymhellach.

Cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Sengl a'r cynlluniau gweithredu eu lansio a'u cyhoeddi ym mis Mawrth 2009. Bydd y cynllun yn para am dair blynedd ac rydym wedi ymrwymo i fonitro cynnydd bob chwe mis ac adolygu'r Cynllun bob blwyddyn. Cyhoeddwyd dau adroddiad ar gynnydd hyd yma, un ar gyfer Ebrill 2009 - Medi 2009 a'r llall ar gyfer Hydref 2009 - Mawrth 2010.

Sefydlwyd Grŵp Cyflawni sy'n cynnwys cynrychiolwyr allanol a mewnol er mwyn llywio datblygiad y Cynllun ac adolygu cynnydd. Mae'r Grŵp Cyflawni wedi cyfarfod ddwywaith - ym mis Tachwedd 2009 ac ym mis Mehefin 2010.

Drwy ddefnyddio'r adroddiadau ar gynnydd rydym wedi gallu nodi a dangos meysydd o arfer da. Ceir rhai enghreifftiau isod:

## Astudiaeth Achos 1 - Ymgynghori â Rhanddeiliaid

## Strategaeth Sipsiwn a Theithwyr

'Ar Lwybr Arall', sef y strategaeth ddrafft ar gyfer Sipsiwn-Teithwyr, yw'r strategaeth genedlaethol gyntaf ar faterion yn ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr, ac mae'n canolbwyntio ar lety, iechyd, addysg a chynllunio yn ogystal â rhwystrau eraill sy'n wynebu'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.  Nod y strategaeth ddrafft ar gyfer Sipsiwn-Teithwyr yw mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a wynebir gan y gymuned Sipsiwn-Teithwyr, sicrhau cyfle cyfartal i'r gymuned Sipsiwn-Teithwyr a galluogi'r gymuned i gael gafael ar adnoddau a gwasanaethau prif ffrwd. Un o nodau eraill y strategaeth yw meithrin cydberthynas newydd rhwng y gymuned Sipsiwn-Teithwyr a'r gymuned sefydlog drwy wella cydlyniant cymunedol a chwalu'r mythau a gysylltir yn aml â Sipsiwn-Teithwyr.

Lansiwyd rhaglen ymgynghori uchelgeisiol ar y strategaeth ar 14 Medi 2009 i alluogi ymgysylltiad mor eang â phosibl â sefydliadau'r sector gwirfoddol, y sector statudol ac, yn bwysicaf oll, y gymuned Sipsiwn-Teithwyr.  Cyflwynwyd y rhaglen ymgynghori mewn partneriaeth ag Achub y Plant, Tai Pawb, y Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon a Phrosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd.  Datblygwyd y rhaglen ymgynghori i bwysleisio sut y gall y sector gwirfoddol weithio mewn partneriaeth gyda ni i sicrhau bod gwasanaethau yn fwy hygyrch ar gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr.  Bwriad y strategaeth yw annog gwaith a gyflawnir mewn partneriaeth gyda'r holl asiantaethau perthnasol i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a wynebir gan y gymuned.

## Astudiaeth Achos 2 - Gweithio mewn Partneriaeth yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru

Mae'r Adran Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus wedi meithrin partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chanolfan Cydraddoldeb y GIG a fydd yn cefnogi Byrddau Gwasanaethau Lleol wrth iddynt ddatblygu a rhannu arfer gorau a sicrhau cymaint o arbenigedd, gallu ac adnoddau â phosibl o ran cydraddoldeb ar draws y gwasanaethau cyhoeddus a rhyngddynt.

## Defnyddio tystiolaeth a data o waith ymchwil i lywio'r broses o lunio polisïau

## Astudiaeth Achos 3 - Data Ethnigrwydd Myfyrwyr

Mae'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi llwyddo i gasglu data ethnigrwydd ar y nifer o fyfyrwyr a gofrestrwyd, y nifer a gadwyd, eu cyflogadwyedd a'r nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu yn hwyrach mewn bywyd er mwyn helpu i nodi ardaloedd lle mae angen mwy o ddarpariaeth. Gan ddefnyddio'r data hwn, maent wedi llwyddo i greu cronfa ddata wybodaeth ac atgyfnerthu arfer sy'n

seiliedig ar dystiolaeth fel y gellid rhoi gwell sail i'w gwaith o ran llunio polisïau, cynllunio rhaglenni a chyfathrebu.

### Hyfforddiant ar faterion cydraddoldeb

### Astudiaeth Achos 4 - Hyfforddiant Cydraddoldeb sy'n benodol i Iechyd

Mae'r Grŵp Cyflawni ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datblygu Fframwaith Hyfforddiant Cydraddoldeb sy'n defnyddio arbenigwyr ar ystod o faterion cydraddoldeb a'u perthnasedd i iechyd. Ymhlith y pynciau a drafodwyd yn y sesiynau roedd Priodasau dan Orfod, Llurgunio Organau Rhywiol Merched, Trais er Anrhydedd a Chyfeiriadedd Rhywiol.

## Cynhyrchu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau a'i gwneud yn haws ei darllen

## Astudiaeth Achos 5 - Taflen Wybodaeth am Ffliw Moch

Cyfieithwyd y daflen ffeithiau am Ffliw Moch i fformatau Hawdd eu Darllen er mwyn sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu, pobl nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf, y gymuned Sipsiwn-Teithwyr a phobl eraill, y mae'n well ganddynt fformatau hawdd eu darllen, yn gallu deall y dull gweithredu o ran Ffliw Moch ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghymru. Roedd hefyd ar gael mewn 13 o ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a Saesneg (Arabeg, Bengali, Cantoneg, Eritrëeg, Farsi, Ffrangeg, Gwjarati, Hindi, Cwrdeg, Pwyleg, Pwnjabeg, Somalieg ac Wrdw). Cynhyrchwyd fersiynau sain, Braille ac Iaith Arwyddion Prydain hefyd.

## Gweithio ym mhob rhan o'r Cynulliad

## Astudiaeth Achos 6 - Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)

Pasiwyd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 19 Tachwedd 2009 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyfrin Gyngor ar 20 Chwefror 2010. Mae'r Mesur yn un o amcanion allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran y weledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a nodwyd yn 'Cymru'n Un'. Aeth swyddogion ym maes Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol; Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; ac Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ati i gydweithio â'r gwasanaethau cyfreithiol ar draws ffiniau Adrannau ar y Mesur trawsbynciol cyntaf.

## Y Camau Nesaf

Mae sicrhau arweinyddiaeth gref ar lefel uwch yn hanfodol er mwyn datblygu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gydraddoldeb ac amrywiaeth a hyrwyddo'r agenda cydraddoldeb ar bob lefel o'r sefydliad. Mae ymrwymiad uwch aelodau o staff yn ffactor hollbwysig wrth geisio sicrhau yr ymdrinnir â materion cydraddoldeb ac mae'n

adlewyrchu'r pwysigrwydd a roddir i gydraddoldeb ym mhob rhan o'r sefydliad.

Ar hyn o bryd mae Adrannau yn gweithio i sicrhau bod Cynlluniau Gweithredu unigol yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau yn hytrach nag allbwn ac i ddangos y cyswllt rhwng y canlyniadau â'r prosesau.

Rydym yn bwriadu gweithio'n fwy agos gyda'r Trydydd Sector. Mae partneriaid a rhanddeiliaid yn y Trydydd Sector wedi datgan eu parodrwydd i ddefnyddio eu profiad o fonitro eu cynlluniau eu hunain i wneud cyfraniad a chydweithio'n agos â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y broses o fonitro'r cynllun. Bydd y broses ychwanegol hon yn sicrhau bod ein gweithdrefnau monitro a llywodraethu yn fwy tryloyw.

Bwriedir cynnal gwerthusiad annibynnol o'r Cynllun yn ystod y misoedd nesaf a bydd yr adolygiad hwn yn llywio'r broses o ddatblygu unrhyw gynllun newydd neu ddiwygiedig.

## Y Ddeddf Cydraddoldeb

Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn dechrau ar 21 Medi ar y Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Penodol arfaethedig ar gyfer awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru. Ein bwriad yw y daw'r dyletswyddau newydd hyn i rym ym mis Ebrill 2011.

## Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (a77(1)) mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru wneud trefniadau priodol â'r nod o sicrhau y cyflawnir eu swyddogaethau gan roi ystyriaeth ddyledus i'r egwyddor o sicrhau cyfle cyfartal i bawb.